

## Datganiad Moeseg Busnes

Mae Trafnidiaeth er Bywyd o Safon o'r farn bod trafndiaeth yn sylfaenol i safon ein bywydau a'n hamgylchedd. Nod Trafnidiaeth er Bywyd o Safon yw hybu system drafndiaeth sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy ac sy'n fwy buddiol i gymdeithas.

I gyflawni'r nod hwn, mae gwaith Trafnidiaeth er Bywyd o Safon yn mynd i'r afael ag effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol defnyddio gormod ar y car, ac mae'n cynnig datrysiadau cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth nad yw'n defnyddio'r car i'n gwneud yn llai dibynnol ar y car. Mae Trafnidiaeth er Bywyd o Safon hefyd yn gweithio ar opsiynau polisi i ddarparu dulliau o deithio yn hytrach na hedfan ac i leihau cymhellion i hedfan sy'n croes i'r graen, er mwyn mynd i'r afael ag effaith allyriadau awyrennau ar yr hinsawdd ledled y byd, sef effaith a allai fod yn ddifrifol.

Yn benodol, mae gwaith Trafnidiaeth er Bywyd o Safon yn cynnwys ymchwilio a dadansoddi, datblygu polisi, ymyrryd ymarferol a lledaenu arfer da at y dibenion a ganlyn:

- Hyrwyddo polisi trafndiaeth gynaliadwy a lledaenu arfer gorau
- Cynyddu seiclo a cherdded
- Gwellu trafndiaeth wledig er mwyn ei gwneud yn llai angenrheidiol defnyddio'r car, er enghraifft trwy drafndiaeth sy'n ymateb i'r galw
- Gwneud trafndiaeth gyhoeddus yn ddull o deithio sy'n fwy deniadol na gyrru, er enghraifft trwy wella'r siwrnai gyfan o'r dechrau i'r diwedd
- Hyrwyddo dulliau cyfathrebu yn hytrach na theithio, fel teleweithio, telegynadleda a siopa gartref
- Datblygu mesurau sy'n annog pobl i beidio â defnyddio'r car yn ddiangen
- Datblygu mesurau sy'n gwneud defnydd mwy effeithiol o'r car, fel rhannu ceir a chlybiau ceir
- Datblygu mesurau newid ymddygiad sy'n arwain at ddefnyddio mwy ar foddau trafndiaeth mwy cynaliadwy, gan gynnwys cynllunio teithio, marchnata, hybu a darparu gwybodaeth
- Lleihau effaith carbon os oes yn rhaid defnyddio'r car, trwy wneud tanwydd a cherbydau'n fwy effeithlon
- Gwerthuso effeithiau a chanlyniadau rhaglenni teithio cynaliadwy, er mwyn i ni ddeall yn well yr ymyriadau sy'n cynnig y budd gorau
- Dadansoddi effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd trafndiaeth
- Cefnogi datrysiadau yn hytrach nag adeiladu mwy o ffyrdd, a chefnogi cynllunio sy'n golygu dibynnu llai ar y car
- Datblygu opsiynau polisi i leihau hedfan

Wrth fynd ar drywydd ein hegwyddorion, bydd Trafnidiaeth er Bywyd o Safon, fel y gwelwn orau, yn gwneud gwaith pro bono, neu ar gyfradd ostyngol, o bryd i'w gilydd i sefydliadau elusennol neu gymunedol sydd ag amcanion trafndiaeth gynaliadwy.

Yn unol â'n moeseg busnes, ni fydd Trafnidiaeth er Bywyd o Safon yn gwneud unrhyw fusnes lle bydd galw i'w staff hedfan. Byddwn hefyd yn osgoi defnyddio'r car ar gyfer busnes, oni bai bod yna ddibenion eithriadol. Mae aelodau unigol o staff Trafnidiaeth er Bywyd o Safon a'i gymdeithion yn ymdrechu yn eu gweithgareddau personol i ddefnyddio cyn lleied â phosibl ar yr awyren a'r car.